**Clwb Mynydda Cymru**
**Adroddiad yr ysgrifennydd gweithgareddau 2025**

## 1. Teithiau mynydda

Trefnwyd cyfanswm o **62** o deithiau. Mae her y teithiau'n amrywio o'r gwyn i'r du gan gynnwys ambell 'epic'. Diolch yn fawr iawn i'r aelodau hynny a gytunodd i'w harwain. Dyma ddadansoddiad:

- Trefnwyd 11 o deithiau du; 15 o rai coch; 26 o rai gwyrdd; 4 felen; 2 wen a gohiriwyd 4 oherwydd tywydd garw.

- Ar gyfartaledd, mae **13** o gerddwyr/mynyddwyr ar bob taith. Y nifer isaf ar daith eleni oedd 3 a 37 oedd y nifer uchaf.

Cynhaliwyd **taith flasu** - Pedol Marchlyn - dan arweiniad Steve a bu i rai o'r blaswyr ymaelodi â'r Clwb yn sgil y profiad.

## 2. Partneriaethau

- **Y *Bartneriaeth Awyr Agored*** - mae cymorth ariannol i fynychu cyrsiau'n dal ar gael a chysylltwyd â'r aelodau i roi gwybod iddyn nhw am hynny.

- ***Yr Urdd*** - defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed yng Ngwersyll Glanllyn yn 2024. Mae'r arian hwnnw bellach wedi dod i ben ond mae'r Urdd wedi penderfynu parhau i gynnig y cwrs. Mynychodd 17 o bobl ifanc y cwrs eleni.

- ***Eisteddfod Genedlaethol*** - traddodwyd y ddarlith flynyddol yn yr Eisteddfod gan Dr. Paula Roberts, Llanberis ac mae Dwynwen Pennant wedi cytuno i ddarparu'r ddarlith yn Eisteddfod y Garreg Las yn 2026.

- **Y BMC** - Mae pob aelod o'r Clwb yn aelod o'r BMC.

## 3. Teithiau preswyl

- **Taith aeaf i Crianlarich.** Roedd **17** o aelodau ar y daith yma yn heulwen yr Alban.

- **Taith haf i'r Cairngorms**. Mwynhaodd **19** o aelodau dywydd hafaidd yn ystod mis Mai.

- **Taith i Fannau Brycheiniog**. Aeth criw o'r gogledd i lawr i'r Bannau a chawsant gwmni croesawgar criw'r de ar eu teithiau mynydda.

- Cynhelir taith i Crianlarich ar **7-14 Mawrth 2026** a thaith i Ullapool ym **mis Mai 2026.**

Diolch yn fawr i Keith Roberts am drefnu'r teithiau hyn.

## 4. Ac i gloi

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a byddaf yn dod ar ofyn yr aelodau eto'n fuan!  Hoffwn apelio:

- am ragor o arweinyddion

- ar arweinyddion i ysgrifennu disgrifiadau’r teithiau gan ddilyn y templad sydd ar wefan y Clwb ac anfon adroddiad a lluniau at Iolo ap Gwynn yn dilyn pob taith

- ar bob aelod sy’n defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i rannu adroddiadau ar *Facebook, Instagram* ac ati.